

# Hysbysiad Preifatrwydd – Ymgeiswyr am Swyddi gyda'r GCA

## Yr hyn y mae'n ymdrin ag ef

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Mae'r GCA yn ymrwymedig i fod yn dryloyw ynglŷn â'r modd y mae'n casglu ac yn defnyddio'r data hwnnw ac i gyflawni ei rwymedigaethau diogelu data.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i ymgeiswyr am swyddi gyda'r GCA.

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir ei defnyddio i adnabod y person hwnnw.

Y GCA yw'r Rheolydd Data dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 24 Mai 2018.

## Pa wybodaeth ydym yn ei dal, yn ei phrosesu ac yn ei rhannu?

Bydd yr wybodaeth yr ydym yn ei dal ac yn ei phrosesu'n cael ei defnyddio at ein dibenion rheoli a gweinyddu yn unig. Byddwn yn ei chadw ac yn ei defnyddio i'n galluogi i redeg y busnes a'r broses ymgeisio am swyddi'n effeithiol, yn gyfreithlon ac yn briodol. Mae'r categorïau o wybodaeth amdanoch chi yr ydym yn ei chasglu, yn ei dal ac yn ei rhannu yn debygol o gynnwys:

- Eich enw, eich dyddiad geni, eich rhywedd, eich rhif yswiriant gwladol, eich cyfeiriad, a'ch manylion cyswllt gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Gwybodaeth monitro cyfle cyfartal;
- Cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- Gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys pa un a oes gennych anabledd ai peidio.

Bydd yr wybodaeth yr ydym yn ei dal wedi cael ei chasglu mewn amrywiaeth o ffyrdd, megis cael ei darparu gennych chi, ei chasglu trwy ffurflenni cais neu CVs, ei chymryd o'ch pasbort neu ddogfennau adnabod eraill megis eich trwydded yrru; o ohebiaeth gyda chi; neu drwy gyfweiliadau, cyfarfodydd neu asesiadau eraill; gan ddarparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth a gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol a ganiateir gan y gyfraith.

Mae'r GCA yn defnyddio sefydliad trydydd parti sy'n casglu ffurflenni cais a gwybodaeth bersonol ymgeiswyr ar ein rhan. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni

y mae'r sefydliad trydydd parti'n prosesu eich data personol ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

### **Ble ydym yn dal yr wybodaeth hon?**

Bydd data'n cael ei storio mewn amrywiaeth o wahanol fannau, gan gynnwys ar eich cofnod ymgeisio, mewn systemau rheoli Adnoddau Dynol ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).

### **Pam ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon?**

Mae angen i'r GCA brosesu data i gymryd camau ar eich cais chi cyn ymrwymo i gontract gyda chi os ydych yn ymgeisydd llwyddiannus. Efallai y bydd arno angen prosesu eich data i ymrwymo i gontract gyda chi hefyd.

Mewn rhai achosion, mae angen i'r GCA brosesu data er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddo wirio cymhwysra ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn bod ei gyflogaeth yn dechrau.

Mae gan y GCA fuddiant dilys mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi'n galluogi'r GCA i reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd i gael ei gyflogi a phenderfynu i bwy ddylai gynnig swydd. Efallai y bydd ar y GCA angen prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi i ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn hefyd.

Gall y GCA brosesu categorïau arbennig o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred, i fonitro ystadegau recriwtio. Hefyd, gall gasglu data i ganfod a yw ymgeiswyr yn anabl ai peidio er mwyn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae'r GCA yn prosesu gwybodaeth o'r fath er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Ar gyfer rhai rolau mae'n rhaid i'r GCA geisio gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau. Lle mae'r GCA yn ceisio'r wybodaeth hon, mae'n ei cheisio am fod hynny'n angenrheidiol er mwyn iddo gyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Ni fydd y GCA yn defnyddio eich data at unrhyw ddiben arall heblaw am yr ymarfer recriwtio yr ydych wedi gwneud cais ar ei gyfer, oni bai eich bod yn llwyddiannus; os felly, bydd eich data'n cael ei gadw yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y gweithlu.

### **Storio'r wybodaeth a diogelwch data**

Rydym yn bwriadu diogelu ansawdd a chyfanrwydd eich gwybodaeth bersonol, yn unol â'r gyfraith gyfredol. Rydym wedi rhoi technolegau a pholisïau diogelwch ar waith i ddiogelu'r data personol sy'n cael ei storio rhag mynediad diawdurdod, defnydd amhriodol, cael ei addasu, cael ei ddifa'n anghyfreithlon neu'n ddamweiniol

a rhag cael ei golli'n ddamweiniol. Hefyd, rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r cyflogaeth, asiantau, contractwyr a sefydliadau trydydd parti eraill hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant hwy'n prosesu eich data personol ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Lle mae'r sefydliad yn defnyddio trydydd parti i brosesu data personol ar ei ran, maent yn gwneud hyn ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig, ac maent dan ddyletswydd cyfrinachedd ac o dan rwymedigaeth i roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch data.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ymdrin ag unrhyw achos tybiedig o dorri diogelwch data personol a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol ynghylch achos o dorri diogelwch data personol lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol inni wneud hynny.

Byddwn yn parhau i wella ein gweithdrefnau diogelwch, wrth i dechnoleg newydd ddod i fod ar gael.

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio am y cyfnodau canlynol:

- Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y rhestr fer, 6 mis o'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau;
- Ar gyfer ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer, 6 mis o ddyddiad y cyfweiliad;
- Os ydych yn ymgeisydd llwyddiannus bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth y gweithlu.

## **Rhannu a datgelu gwybodaeth bersonol**

Gall eich gwybodaeth gael ei rhannu'n fewnol at ddibenion yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm Adnoddau Dynol, pobl sy'n cyfweld â'r ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio, rheolwyr yn y maes busnes â swydd wag a staff TG os oes angen mynediad at y data er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau.

Heblaw am y sefydliad recriwtio trydydd parti y mae'r GCA yn ei ddefnyddio i gasglu ceisiadau a phan fo'n ofynnol cael geirdaon cyn y cyfweiliad, ni fydd y GCA yn rhannu eich data gyda thrydydd parti, oni bai fod eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus a'i fod yn cynnig swydd i chi. Wedyn bydd y sefydliad yn rhannu eich data gyda chyn-gyflogwyr i gael geirdaon ar eich cyfer, gyda darparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth i gwblhau gwiriadau cefndir angenrheidiol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gwblhau gwiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol.

Nid ydym yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

## **Eich Hawliau**

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- Hawl i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol ac i gael copi o'ch gwybodaeth bersonol;

- Hawl i wrthod caniatâd i brosesu eich data personol lle'r ydym yn dibynnu ar eich cydsyniad neu fuddiannau dilys y GCA fel y sail gyfreithiol i brosesu;
- Hawl i ofyn i'r GCA roi'r gorau i brosesu eich data personol, er enghraifft lle nad oes angen y data mwyach at ddibenion prosesu;
- Hawl i ofyn am gywiro, dileu neu ddifa eich data personol.

Sylwer na fydd pob un o'r hawliau hyn yn berthnasol i'r holl wybodaeth; felly mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cydymffurfio â'ch cais. Byddwn wastad yn dweud wrthyh os mai dyna'r sefyllfa.

Os byddwch yn dymuno arfer unrhyw hawliau sydd gennych, neu os bydd gennych unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau, dylid cyfleu hyn yn ysgrifenedig wrth Swyddog Diogelu Data'r GCA, Sarah Jones:

### **Trwy'r Post**

Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg  
Porth Tredomen  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach  
Hengoed  
CF82 7EH

### **Trwy'r E-bost**

[business.support@sewaleseas.org.uk](mailto:business.support@sewaleseas.org.uk)

### **Oriau Agor**

O ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am tan 5pm

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, yn y lle cyntaf gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r GCA gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, yna mae gennych yr hawl i gyfleu cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ([www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)).

### **Beth os nad ydych yn darparu gwybodaeth bersonol?**

Nid ydych dan unrhyw rwymedigaeth statudol na chytundebol i ddarparu data ar gyfer y sefydliad yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, efallai na fydd y sefydliad yn gallu prosesu eich cais yn iawn neu o gwbl.

### **Cwestiynau neu awgrymiadau**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, anfonwch neges e-bost i'r cyfeiriad canlynol:  
[business.support@sewaleseas.org.uk](mailto:business.support@sewaleseas.org.uk).